# Paratoi i ddechrau'r ysgol

Mwynhau a chael hwyl yn rhannu straeon a llyfrau yw un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud i helpu'ch plentyn i baratoi ar gyfer yr ysgol.


## Mae darllen gyda'ch plentyn yn ei helpu i baratoi ar gyfer yr ysgol trwy:

- Helpu'r ddau ohonoch i **deimlo'n agosach ac yn fwy cysylltiedig**: wrth baratoi ar gyfer newid
- Meithrin **sgiliau cymdeithasol cryfach**: wrth baratoi i gwrdd â ffrindiau newydd
- Datblygu **lleferydd ac iaith**: i gefnogi dysgu a chyfathrebu
- Helpu i deimlo'n fwy **cyfforddus a hyderus**: wrth ddod yn gyfarwydd ag arferion a bywyd ysgol
- **Cychwyn sgyrsiau**: i rannu sut mae'n teimlo am ddechrau'r ysgol.


## Beth am roi cynnig ar un o'r llyfrau gwych hyn




Mae **Monsters at School** yn stori hwyliog, wirion a digri dros ben!




Mae **Worry Boots** yn llyfr ardderchog ar gyfer helpu gyda sgyrsiau am deimladau sy'n ymwneud â dechrau'r ysgol.




Mae **Olu's Teacher** yn stori hyfryd sy'n dangos profiad cyntaf bachgen yn yr ysgol a'r hwyl mae'n ei gael.




Mae **Ten Little Ducklings** yn llyfr gwych sy'n annog plant i ryngweithio.

## Tri awgrym da ar gyfer darllen gartref

1. Darllenwch stori gyda'ch plentyn bob nos cyn iddo fynd i'r gwely
2. Helpwch eich plentyn i ddod o hyd i lyfrau neu gymeriadau mae'n dwlu arnynt
3. Gwnewch ddarllen yn hwyl! Ceisiwch roi lleisiau gwirion i gymeriadau!

Peidiwch ag anghofio parhau i ddarllen gyda'ch gilydd unwaith y bydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol!

Sganiwch y cod QR i gael rhagor o argymhellion, awgrymiadau a gwybodaeth am lyfrau neu ewch i **booktrust.org.uk**.

©2026 BookTrust. Rhif elusen: 313343